# Taflen waith asesu risg myfyrwyr

Mae'r adnodd hwn yn cyd-fynd â'r erthygl **Sut mae addysgu sgiliau asesu risg,** rhan o'r **cyfres Addysgu sgiliau gwyddoniaeth** yn *Education in Chemistry* y gellir ei gweld yn: rsc.li/4rA0Nrv

## Amcanion dysgu

1 Adnabod peryglon a gwerthuso risgiau mewn gwaith ymarferol

2 Nodi dulliau rheoli priodol i gadw eich hunain ac eraill yn ddiogel

## Cyflwyniad

Mae gwneud halwyn hydawdd yn arbrawf ymarferol sydd wedi ei gynnwys ym mhob cwricwlwm 14-16 ac mae'r arbrawf hwn yn rhoi cyfle naturiol i ddysgwyr edrych ar asesu risg yn fanylach.

Er y gall ymddangos yn syml, bob blwyddyn rhoddir gwybod am nifer uchel o ddigwyddiadau a damweiniau sy'n deillio o'r arbrawf hwn.

Mae ein fideo ymarferol craidd **Paratoi halwyn hydawdd** rsc.li/3pmV9sw yn dangos dull o wneud halwyn sy'n wahanol i'r dull 'safonol' er mwyn ei wneud yn fwy diogel. Gallech ofyn i'ch dysgwyr wylio'r fideo, gan gadw golwg am unrhyw beth sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch a'i nodi cyn gofyn iddyn nhw gwblhau'r dasg.

## Sgaffaldiau

Darparwyd dwy daflen waith i'w hargraffu ar asesu risg i fyfyrwyr. Mae un wedi ei llenwi'n rhannol gyda'r peryglon wedi eu rhestru i gynnig arweiniad i ddysgwyr ddechrau arno. Mae'r ail yn dempled gwag sy'n cynnig mwy o her neu, fel tasg ddilynol, i'w defnyddio gyda halwyn gwahanol neu arbrawf arall.

## Sut i ddefnyddio'r adnodd

Gellid gwneud hyn fel gweithgaredd gwaith cartref cyn neu ar ôl iddyn nhw gynnal yr arbrawf ymarferol. Byddai hefyd yn gweithio fel gweithgaredd yn y dosbarth gyda dysgwyr yn gweithio gyda'i gilydd mewn grwpiau, neu fel trafodaeth gyda'r dosbarth cyfan.

Rhowch y templed sydd wedi ei lenwi'n rhannol neu'n wag i bob dysgwr neu grŵp.

Mae taflenni diogelwch myfyrwyr CLEAPSS ar gael i bawb ac maent yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen i gwblhau'r asesiad risg. Mae'r taflenni ar gael yn science.cleapss.org.uk/Resources/Student-Safety-Sheets/.

© 2023 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

Cyn y wers, mae'n bosibl yr hoffech chi argraffu'r taflenni perthnasol:

- SSS022 Asid sylffwrig
- SSS040 Copr a'i gyfansoddion

I gael rhagor o wybodaeth am asesu risg, gweler dogfen asesu risg myfyrwyr CLEAPPS, science.cleapss.org.uk/resource/SSS096-Risk-assessment.pdf.

## Atebion

Rhoddir ateb enghreifftiol ar y tudalennau nesaf.

© 2023 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

# Asesiad risg myfyrwyr: ateb enghreifftiol

**Enw'r halwyn sy'n cael ei baratoi:** copr sylffad

*Gorffennwch y brawddegau*

Mae **perygl** yn golygu unrhyw beth a allai achosi niwed, e.e. asid sylffwrig crynodedig, bag ar y llawr neu **trybedd boeth, fflam llosgydd Bunsen (neu unrhyw berygl arall)**.

**Risg** yw'r siawns neu'r tebygolrwydd y bydd niwed yn digwydd go iawn a difrifoldeb y niwed hwnnw.

| Sylweddau neu weithdrefnau peryglus | Perygl | Rhagofalon/mesurau rheoli i leihau risg |
|---|---|---|
| 1.4 M Asid sylffwrig – gweler SSS022 | Llidus - gall niweidio'r llygaid a'r croen | Gwisgwch sbectol diogelwch<br>Defnyddiwch symiau bach |
| Copr ocsid (solid) – gweler SSS040 | Cyrydol, llidus ac yn beryglus i'r amgylchedd<br>Gall achosi niwed difrifol i'r llygaid, llid ar y croen, a gall fod yn niweidiol os caiff ei lyncu/mewnanadlu<br>Gwenwynig i fywyd dyfrol | Gwisgwch sbectol diogelwch<br>Defnyddiwch symiau bach<br>Peidiwch â chyffwrdd<br>Peidiwch ag arllwys gwastraff i lawr y sinc |
| Copr sylffad (hydoddiant a solid) - gweler SSS040 | Cyrydol, llidus ac yn beryglus i'r amgylchedd<br>Gall achosi niwed difrifol i'r llygaid, llid ar y croen, a gall fod yn niweidiol os caiff ei lyncu/mewnanadlu<br>Gwenwynig i fywyd dyfrol | Gwisgwch sbectol diogelwch<br>Peidiwch â mynd â'r crisialau copr sylffad o'r labordy<br>Golchwch eich dwylo ar ddiwedd y wers<br>Yn ystod y cam anweddu, peidiwch â gadael i'r hydoddiant ferwi'n sych<br>Byddwch yn ofalus wrth ei waredu |

© 2023 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

| Sylweddau neu weithdrefnau peryglus | Perygl | Rhagofalon/mesurau rheoli i leihau risg |
|---|---|---|
| Gwresogi'r asid sylffwrig ar y dechrau a'i adweithio â chopr ocsid | Gollyngiadau<br>Adweithyddion yn mynd yn rhy boeth ac yn berwi drosodd | Gwnewch y weithgaredd mewn bath dŵr, gan ferwi'r dŵr mewn tegell |
| Anweddu'r hydoddiant i ffurfio hydoddiant dirlawn o gopr sylffad | Tasgu<br>Dadelfennu crisialau copr sylffad | Gwisgwch gyfarpar amddiffyn y llygaid<br>Gwnewch y weithgaredd mewn fflasg gonigol fel y bydd unrhyw beth sy'n tasgu yn taro y tu mewn i'r fflasg. Defnyddiwch ronynnau gwrth-ergyd<br>Byddwch yn wyliadwrus, gan ei wresogi am gyfnod penodol yn unig<br>Rheolwch fflam y llosgydd Bunsen a pheidiwch â gadael i'r hydoddiant ferwi'n sych |
| Arllwys yr hydoddiant copr sylffad i mewn i ddysgl anweddu | Llosgi wrth gyffwrdd cyfarpar poeth<br>Perygl o ollyngiadau | Defnyddiwch faneg wedi ei hinswleiddio i godi'r fflasg gonigol neu gadewch iddi oeri cyn ei throsglwyddo<br>Byddwch yn wyliadwrus |

© 2023 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol